# Derbyn a bwrw ymlaen ag achosion llys, tribiwnlys ac erlyniad

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â derbyn gwybodaeth ynghylch achosion, gwirio a phrosesu dogfennau perthnasol a mynd ymlaen ag achosion i wrandawiad.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, tribiwnlysoedd neu erlyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adolygu'r holl ddogfennau a dderbynnir ynghylch achosion, yn unol â gofynion sefydliadol 2. prosesu ffioedd pan fydd angen, yn unol â gofynion sefydliadol 3. gwneud yn siŵr bod achosion yn cydymffurfio â gofynion sefydliadol, deddfwriaethol ac awdurdodaethol 4. nodi'r math o lysoedd a thribiwnlysoedd sy'n briodol i glywed achosion, a'u lleoliad, yn unol â gofynion sefydliadol 5. prosesu dogfennau i'w cymeradwyo gan yr unigolyn perthnasol, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 6. prosesu'r holl fanylion ynghylch achosion yn unol â gofynion sefydliadol 7. cynnal ffeiliau achos, yn unol â gofynion sefydliadol 8. darparu'r wybodaeth angenrheidiol i bartïon perthnasol, yn unol â gofynion sefydliadol 9. mynd i'r afael ag ymholiadau o ran cofrestru achosion, yn unol â gofynion sefydliadol 10. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol o ran gwybodaeth sy'n ofynnol i greu achosion newydd  2. mathau o achosion sydd angen ffioedd cofrestru a'r ffioedd cysylltiedig yn eich maes cyfrifoldeb  3. gofynion sefydliadol presennol ar dalu, eithrio ac ad-dalu ffioedd  4. y terfynau amser y mae'n rhaid derbyn a phrosesu papurau'n ymwneud ag achosion newydd ynddynt  5. y camau y dylid eu cymryd wrth brosesu dogfennau anghywir ac anghyflawn 6. sail awdurdodaethau ar gyfer achosion yn eich maes cyfrifoldeb 7. ffactorau sy'n effeithio ar ba lys neu wrandawiad sy'n briodol i glywed achosion 8. gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer creu ffeiliau achos newydd, gan gynnwys y wybodaeth a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth  9. pwysigrwydd cofrestru manylion yn gywir, a goblygiadau peidio â gwneud hyn 10. gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i fod yn ddiogel

SFJDB1

Derbyn a bwrw ymlaen ag achosion llys, tribiwnlys ac erlyniad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DB1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; erlyn; achos; dilyniant; gwrandawiad; derbyn; cynnydd; proses |